Comisiwn
y Gyfraith
Diwygio'r gyfraith

# Cynllun Busnes

2026 i 2027

# Rhagair y Cadeirydd

Mae'n bleser gennyf gyflwyno Cynllun Busnes Comisiwn y Gyfraith ar gyfer 2026 i 2027. Mae'r cynllun hwn yn nodi'n glir sut bydd Comisiwn y Gyfraith yn parhau i gyflawni ei swyddogaeth statudol o sicrhau bod y gyfraith yn deg, yn fodern, yn syml ac yn gost-effeithiol, yn ogystal â sicrhau bod y sefydliad ei hun yn parhau i ddatblygu a ffynnu.



Dyma'r pedair blaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod:

1. Diwygio'r gyfraith ar gyfer y gymdeithas gyfan.
2. Hyrwyddo diwygio'r gyfraith yn annibynnol a rheolaeth y gyfraith yn ddomestig ac yn rhyngwladol.
3. Sicrhau bod ein sylfeini llywodraethu yn addas ar gyfer y dyfodol.
4. Galluogi ein pobl i ddiwygio'r gyfraith yn arbenigol ac yn annibynnol.

Mae'r sefydliad bob amser yn ceisio bod yn fwy effeithiol, effeithlon ac ar flaen y gad o ran diwygio'r gyfraith. Mae ein henw da fel arweinwyr byd-eang ym maes diwygio'r gyfraith yn haeddiannol ac, er mwyn cynnal hyn, rhaid i ni sicrhau ein bod yn uchelgeisiol yn yr hyn rydym yn ceisio ei gyflawni fel sefydliad ond hefyd ein bod yn myfyrio ar lwyddiannau a heriau'r flwyddyn ddiwethaf. Mae'n bleser gennyf ddweud ein bod wedi cynnwys adolygiad o'r Cynllun Busnes ar gyfer 2025 i 2026 yn adroddiad blynyddol eleni.

Rwy'n ddiolchgar i Gomisiynwyr a staff Comisiwn y Gyfraith am eu hymroddiad parhaus i'r gwaith pwysig a wnawn.

**Syr Peter Fraser**
**Cadeirydd**

# Rhagair y Prif Weithredwyr

Rydym yn falch o gyflwyno Cynllun Busnes Comisiwn y Gyfraith ar gyfer 2026 i 2027, sy'n nodi blaenoriaethau ac amcanion y sefydliad ar gyfer y flwyddyn i ddod. Daw'r cynllun hwn ar adeg o alw mawr parhaus am ddiwygio'r gyfraith yn annibynnol, yn feddylgar ac yn arbenigol. Mae gennym raglen waith uchelgeisiol yn mynd rhagddi ar draws ystod amrywiol o feysydd diwygio'r gyfraith, sy'n effeithio ar sawl agwedd ar ein cymdeithas. Mae'r cynllun busnes hwn yn darparu fframwaith clir ar gyfer sut byddwn yn parhau i gyflawni ein dyletswydd statudol ar yr un pryd â chryfhau sylfeini'r sefydliad ar gyfer y dyfodol.

Mae'r pedair blaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod yn adlewyrchu diben parhaus Comisiwn y Gyfraith, ei enw da yn rhyngwladol, a heriau ymarferol gweithredu mewn system gyfreithiol gymhleth sy'n datblygu. Maent wedi'u cynllunio i sicrhau ein bod yn parhau i ddiwygio'r gyfraith mewn modd trylwyr, hygyrch ac o safon er budd cymdeithas gyfan; i hyrwyddo gwerth diwygio'r gyfraith yn annibynnol a rheolaeth y gyfraith yng Nghymru, Lloegr a thu hwnt; i ddiogelu ein gwaith llywodraethu, ein hannibyniaeth a'n hygrededd; ac i roi'r sgiliau, yr offer a'r cymorth sydd eu hangen ar bobl i wneud eu gwaith i'r safon uchaf.

Mae Comisiwn y Gyfraith yn cael ei gydnabod yn eang am ansawdd, annibyniaeth ac effaith ei waith. Mae ein hargymhellion yn creu gwerth cymdeithasol ac economaidd sylweddol, o wella mynediad at gyfiawnder ac eglurder cyfreithiol i gefnogi arloesi, twf a hyder y cyhoedd yn y gyfraith. Dim ond drwy arbenigedd, ymrwymiad a phroffesiynoldeb ein Comisiynwyr a'n staff y gallwn gynnal yr effaith hon. Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein pobl, ein ffyrdd o weithio a gwydnwch ein sefydliad, gan gynnal ffocws clir ar ddiwygio cyfreithiau sydd heb eu diwygio eto.

Ynghyd â'r Cadeirydd, edrychwn ymlaen at adrodd ar ein cynnydd yn erbyn y Cynllun Busnes hwn yn ystod y flwyddyn i ddod.

**Joanna Otterburn a Stephanie Hack**
**Prif Weithredwyr ar y Cyd**



# Cyflwyniad

Mae Comisiwn y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr yn gorff statudol annibynnol a sefydlwyd i adolygu’r gyfraith ac argymell diwygiadau i’w chadw’n deg, yn fodern ac yn hygyrch.

Mae Comisiwn y Gyfraith yn cael ei gydnabod yn rhyngwladol fel awdurdod blaenllaw ar ddiwygio’r gyfraith, ac mae’n adnabyddus am ei ddadansoddi trylwyr, ei ymgynghori eang a’i argymhellion o ansawdd uchel.

Drwy’r gwaith hwn, mae Comisiwn y Gyfraith yn cryfhau rheolaeth y gyfraith drwy wella eglurder cyfreithiol, tryloywder a hyder y cyhoedd yn y system gyfiawnder.

Mae ei ddiwygiadau’n helpu i gynnal sefyllfa Cymru a Lloegr fel prif awdurdodaeth gyfreithiol, un sy’n denu buddsoddiad, yn cefnogi sector cyfreithiol y DU ac yn gwella enw da’r DU yn fyd-eang.

Mae’r Cynllun Busnes hwn yn darparu:

- trosolwg o’n rhaglen bresennol o brosiectau;
- crynodeb o’r cynnydd yn erbyn blaenoriaethau’r llynedd; ac
- ein nodau a’n gweithgareddau arfaethedig ar gyfer mis Ebrill 2026 i fis Mawrth 2027.


Mae’n adlewyrchu ein hymrwymiadau parhaus a’r camau y byddwn yn eu cymryd yn y flwyddyn i ddod i barhau i ddiwygio’r gyfraith mewn modd annibynnol ac o safon.



Comisiwn y Gyfraith
Diwygio'r gyfraith

# Ffigurau Comisiwn y Gyfraith

O fis Ebrill 2026 ymlaen, mae Comisiwn y Gyfraith yn cyflawni 20 o brosiectau ar gyfer 8 adran, Cyrff Hyd Braich a Llywodraeth Cymru.




- Trysorlys EF
- Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
- Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon
- Yr Adran Busnes a Masnach
- Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol
- Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
- Yr Adran Drafnidiaeth
- Yr Adran Addysg

*Noddir y prosiect Dirmyg Llys ar y cyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Swyddfa'r Twrnai Cyffredinol.

# Effaith Comisiwn y Gyfraith ar gymdeithas

Wrth gyflawni ei ddyletswydd statudol, mae Comisiwn y Gyfraith yn cyfrannu arweinyddiaeth meddwl a gwerth cymdeithasol ac economaidd sylweddol ar draws meysydd pwysig bywyd cyhoeddus. Rhwng 2025 a 2026, mae Comisiwn y Gyfraith wedi cyhoeddi 10 papur ymgynghori ac adroddiad terfynol, gan gynnwys Mynediad Plant Anabl at Ofal Cymdeithasol, Tystiolaeth mewn Erlyniadau Troseddau Rhywiol, Moderneiddio Cyfraith Ewyllysiau ac Amaethyddiaeth yng Nghymru. Mae ein gwaith annibynnol yn parhau i gyfrannu at ddeialog genedlaethol ar ddiwygio cyfreithiol, gan ddylanwadu ar ddylunio polisi a siapio dealltwriaeth y cyhoedd o faterion cyfiawnder allweddol.

## Moderneiddio a symleiddio cyfraith amaethyddol yng Nghymru

Nod ein gwaith ar gyfraith amaethyddol yng Nghymru yw trawsnewid y fframwaith cyfreithiol amaethyddol presennol drwy ei gwneud yn haws dod o hyd iddo, ei lywio a'i ddeall. Mae'n gwneud hyn drwy gynnig creu un cod cyfraith amaethyddol hygyrch a dwyieithog i Gymru. Wrth wneud hynny, mae ein prosiect yn garreg filltir bwysig yn yr ymrwymiad deddfwriaethol ehangach i godeiddio'r gyfraith yng Nghymru dan arweiniad Llywodraeth Cymru. Mae ein prosiect hefyd yn nodi cyfleoedd i wneud newidiadau technegol a fydd yn helpu i foderneiddio a symleiddio'r gyfraith yn y maes hwn. Gyda dros 90% o dir Cymru yn cael ei ddefnyddio ar gyfer amaethyddiaeth, mae gan ein prosiect y potensial i sicrhau manteision gwirioneddol i sector sy'n rhan annatod o economi, diwylliant ac amgylchedd Cymru.

## Atal niwed a llesiant

Mae gan y prosiect Mynediad Plant Anabl at Ofal Cymdeithasol y potensial i drawsnewid y cymorth i hyd at 5 miliwn o blant dros y degawd nesaf. I lawer o deuluoedd, mae anawsterau o ran cael gafael ar y cymorth iawn ar yr adeg iawn yn creu pwysau sylweddol a pharhaus, gan adael gofalwyr yn aml i ysgwyddo cyfrifoldebau anghynaliadwy a all arwain at drallod seicolegol difrifol. Nod ein diwygiadau yw newid y stori honno drwy sicrhau bod plant yn cael yr help sydd ei angen arnynt yn gynnar, gan hybu eu llesiant a lleihau'r risg y bydd eu hanghenion yn gwaethygu. Dylai hyn hybu'r cysyniad o fagu plant yn eu teuluoedd.

## Rheolaeth y gyfraith a mynediad at gyfiawnder

Mae gan brosiect Tystiolaeth mewn Erlyniadau Troseddau Rhywiol y potensial i wella bywydau'r 65,000 o oedolion sy'n dweud eu bod wedi cael eu treisio bob blwyddyn ac effeithio ar tua 5,000 o achosion troseddau rhywiol difrifol bob blwyddyn. Mae ei argymhellion yn cryfhau tegwch, tryloywder a hyder yn un o feysydd mwyaf sensitif y system gyfiawnder. Mae'r argymhellion yn egluro trothwyon tystiolaeth, yn hybu mwy o degwch a chysondeb wrth wneud penderfyniadau barnwrol a phenderfyniadau rheithwyr, yn ceisio lleihau cwestiynau ymwthiol a diangen, ac yn cryfhau mesurau diogelu treialon sydd wrth wraidd rheolaeth y gyfraith. Mae cymorth i roi tystiolaeth ac ymarfer sy'n seiliedig ar drawma yn cefnogi achwynwyr a diffynyddion ymhellach, gan eu galluogi i lywio drwy'r broses gydag urddas a thegwch. Gyda'i gilydd, mae'r diwygiadau hyn yn helpu i greu system sy'n diogelu hawliau'n well, yn gwella mynediad at gyfiawnder ac yn cryfhau ymddiriedaeth mewn prosesau cyfreithiol.

## Moderneiddio'r system gyfreithiol ac ysgogi twf technoleg

Drwy'r prosiect Moderneiddio Cyfraith Ewyllysiau, rydym wedi gwneud argymhellion sy'n helpu i sicrhau bod fframwaith cyfreithiol hen ffasiwn yn cyd-fynd â disgwyliadau modern, gyda diwygiadau a allai fod o fudd i ystadau tua 3.7 miliwn o bobl dros 10 mlynedd. Un ffordd o foderneiddio yw caniatáu ewyllysiau electronig, i adlewyrchu realiti cymdeithas fwy digidol ac i wneud y broses o lunio ewyllysiau'n fwy hygyrch. Bydd ein diwygiadau hefyd yn helpu i sicrhau bod dymuniadau gwirioneddol pobl yn rheoli sut caiff eu hystad ei dosbarthu, nad yw'r gyfraith yn dirymu ewyllys unigolion heb yn wybod iddynt, a bod mwy o dystiolaeth o allu unigolion i wneud ewyllys ar ôl iddynt farw, a fydd yn lleihau heriau costus mewn perthynas ag ewyllys unigolyn.

# Gwerthuso blaenoriaethau 2025 i 2026

Mae ein Cynllun Busnes ar gyfer 2025 i 2026 yn nodi pedair blaenoriaeth allweddol ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2025 a mis Mawrth 2026. Roedd y blaenoriaethau hyn yn allweddol i ni barhau i ddarparu gwerth cymdeithasol ac economaidd drwy ddiwygio'r gyfraith mewn modd o safon ac o'r radd flaenaf. Isod ceir crynodeb o'r cynnydd a wnaed o ran ein blaenoriaethau ar gyfer 2025-26. Mae'r gwerthusiad llawn ar gael yn Adroddiad Blynyddol 2026 i 2027.

## Blaenoriaeth 1: Gosod y sylfeini ar gyfer rhaglen waith newydd

Yn dilyn proses ddethol drylwyr, gosododd yr Arglwydd Ganghellor ein 14eg raglen diwygio'r gyfraith gerbron Senedd y DU. Yn ogystal â'n rhaglen waith, rydym yn dal yn effro i faterion brys sy'n galw am ddiwygio'r gyfraith, ac rydym wedi derbyn cyfeiriadau ar bynciau fel Atebolrwydd Sifil a Deallusrwydd Artiffisial. Roedd dathlu 60 mlynedd ers sefydlu Comisiwn y Gyfraith yn cynnig mwy o gyfleoedd i godi ymwybyddiaeth o'n gwaith gyda phartneriaid ar draws y Farnwriaeth, y Llywodraeth a Senedd y DU.

## Blaenoriaeth 2: Datblygu ffyrdd o ymgysylltu â chynulleidfaoedd presennol a chynulleidfaoedd newydd

Drwy weithredu ein strategaeth gyfathrebu newydd, fe wnaethom ddefnyddio ffyrdd arloesol o gynnwys y cyhoedd yng ngwaith Comisiwn y Gyfraith. Fe wnaethom gyrraedd cynulleidfaoedd newydd ac ehangach drwy lansio ein tudalen Instagram a defnyddio fersiynau sain ac animeiddiadau yn ein hadroddiad ar Ofal Cymdeithasol i Blant Anabl. Fe wnaethom gryfhau ein harferion ymgynghori drwy ddefnyddio data demograffig a daearyddol i bennu lle'r oedd grwpiau penodol yn cael eu tangynrychioli.

## Blaenoriaeth 3: Gwella ein henw da fel asiantaeth o'r radd flaenaf ym maes diwygio'r gyfraith

Roedd lansio ein strategaeth ryngwladol wedi'i diweddaru wedi galluogi ymgysylltiad rhyngwladol sylweddol, parhaus a newydd ar draws awdurdodaethau fel UDA, Canada, Awstralia, Tanzania, De Korea a Botswana, a gyda chyrff fel Cymdeithas Asiantaethau Diwygio'r Gyfraith y Gymanwlad. Fe wnaethom gefnogi ein gwaith rhyngwladol drwy gais llwyddiannus i gronfa rheolaeth y gyfraith y Weinyddiaeth Gyfiawnder a chydweithio â ROLE UK.

## Blaenoriaeth 4: Gwella ein ffyrdd ni o weithio

Fe wnaethom ofyn am adolygiad allanol arbenigol o'n model gweithredu sydd wedi ein galluogi i nodi cyfleoedd i feithrin mwy o wydnwch dros y blynyddoedd nesaf. Fe wnaethom gyflwyno ein Tasglu Deallusrwydd Artiffisial i dreialu atebion deallusrwydd artiffisial i wella cynhyrchiant ar yr un pryd â pharhau i lynu wrth ein gwerthoedd sefydliadol newydd sef annibyniaeth, gonestrwydd ac arbenigedd. Fe wnaethom hefyd groesawu dau Gomisiynydd y Gyfraith newydd ac Uwch Gwnsler i Gymru, a chreu swydd barhaol Uwch Gyfreithiwr ar gyfer pob tîm diwygio'r gyfraith i gynyddu gwydnwch ar lefelau staff uwch.

Comisiwn y Gyfraith
Diwygio'r gyfraith

## Diwygio'r gyfraith ar gyfer y gymdeithas gyfan

Ein dyletswydd statudol graidd yw darparu argymhellion annibynnol o ansawdd uchel ar gyfer diwygio. Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn canolbwyntio ar gwblhau camau allweddol ein prosiectau presennol, a sicrhau bod ein gwaith yn drylwyr, yn hygyrch ac yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn. Ochr yn ochr â chyflawni prosiectau yn y 14eg Raglen Diwygio'r Gyfraith, byddwn yn parhau i ymateb i faterion cyfreithiol sy'n dod i'r amlwg a chynnal safonau uchel ar draws pob cyhoeddiad ac ymgynghoriad.

### Amcanion

- Darparu papurau ymgynghori, adroddiadau a chyhoeddiadau eraill o ansawdd uchel ar draws ein rhaglen diwygio'r gyfraith.
- Ymgysylltu'n adeiladol â'r Llywodraeth ynghylch cyfeiriadau gweinidogol newydd a materion diwygio'r gyfraith sy'n codi.

### Sut byddwn yn gwneud hyn

- Parhau i gynnal perthynas gadarn ag adrannau'r llywodraeth, Llywodraeth Cymru, Senedd y DU a rhanddeiliaid ehangach i sicrhau bod prosiectau'n cael eu cwmpasu'n dda, bod ganddynt yr adnoddau priodol a'u bod yn berthnasol.
- Gweithio'n unol â safonau cyflawni prosiectau cyson a chadarn gan ddefnyddio Llawlyfr Diwygio'r Gyfraith a mesurau eraill.
- Lle bo'n briodol, cefnogi adrannau'r Llywodraeth mewn perthynas â deddfwriaeth Comisiwn y Gyfraith sy'n pasio drwy Senedd y DU, ac ymateb yn amserol i geisiadau Seneddol.
- Adolygu a chyflawni strategaeth gyfredol ar amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant.

Comisiwn y Gyfraith
Diwygio'r gyfraith

## Hyrwyddo diwygio'r gyfraith yn annibynnol a rheolaeth y gyfraith yn ddomestig ac yn rhyngwladol

Mae ein gwaith yn hyrwyddo eglurder, tegwch a hygyrchedd yn y gyfraith, gan gyfrannu'n uniongyrchol at gryfhau rheolaeth y gyfraith. Byddwn yn gwella'r ffordd rydym yn cyfleu gwerth diwygio'r gyfraith wrth gryfhau rheolaeth y gyfraith. Drwy wneud hynny, byddwn yn atgyfnerthu ein rôl fel corff diwygio'r gyfraith blaenllaw sydd â dylanwad yn ddomestig ac yn rhyngwladol.

### Amcanion

- Meithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwerth diwygio'r gyfraith yn ddomestig.
- Meithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwerth diwygio'r gyfraith yn rhyngwladol.
- Meithrin dealltwriaeth o sut mae diwygio'r gyfraith yn cyfrannu at reolaeth y gyfraith.

### Sut byddwn yn gwneud hyn

- Hyrwyddo fframweithiau cyfreithiol hygyrch, clir, teg ac effeithiol drwy ein prosiectau.
- Darparu ymgysylltiad rhyngwladol wedi'i dargedu sy'n cyd-fynd â'n strategaeth ryngwladol gydag asiantaethau eraill diwygio'r gyfraith, a chefnogi awdurdodaethau sy'n datblygu eu diwygiadau i'r gyfraith drwy rannu ein gwybodaeth a'n harferion gorau.
- Cynnal ein rôl weithredol yng Nghymdeithas Asiantaethau Diwygio'r Gyfraith y Gymanwlad i gefnogi cydweithredu a hyrwyddo egwyddorion rheolaeth y gyfraith ar draws awdurdodaethau'r Gymanwlad.
- Parhau i adeiladu ar ein strategaeth gyfathrebu sy'n ehangu ein neges ar werth diwygio'r gyfraith ac effaith ein gwaith, a chyflawni'r strategaeth honno.
- Cadw mewn cysylltiad ag eraill y mae eu nodau a'r elfennau sydd ganddynt i'w cyflawni yn cyd-fynd â'n rhai ni.

## Blaenoriaeth 3

# Sicrhau Bod Ein Sylfeini Llywodraethu yn Addas ar gyfer y Dyfodol

Mae llywodraethu cadarn ac annibyniaeth sefydliadol yn sylfeini hanfodol i'n gwaith. Byddwn yn canolbwyntio ar ddiogelu a chryfhau ein strwythurau, ein harweinyddiaeth a'n mecanweithiau sicrwydd i ddiogelu ein hannibyniaeth a diwygio'r gyfraith mewn modd credadwy ac o safon.

### Amcanion

- Diogelu annibyniaeth, hygrededd ac effeithiolrwydd tymor hir Comisiwn y Gyfraith.
- Diogelu ac atgyfnerthu annibyniaeth weithredol Comisiwn y Gyfraith drwy gyllid sefydlog a threfniadau nawdd tryloyw.
- Sicrhau parhad arweinyddiaeth a gallu drwy lywodraethu penodiadau cyhoeddus yn effeithiol.
- Cryfhau safonau llywodraethu a gweithredu.

### Sut byddwn yn gwneud hyn

- Adolygu argymhellion Adolygiad o Effeithiolrwydd y Bwrdd 2025.
- Gweithio gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i adolygu'r model a'r protocol cyllido, gan sicrhau nad yw trefniadau cyllido'n tanseilio annibyniaeth ganfyddiadol neu wirioneddol, a chysoni adnoddau'n gliriach â phwrpas a blaenoriaethau statudol.
- Penodi a chefnogi proses gynefino a phontio effeithiol ar gyfer aelodau newydd o'r Bwrdd a'r Cadeirydd.
- Parhau i aeddfedu swyddogaethau corfforaethol a threfniadau llywodraethu'r sefydliad, gan sicrhau ein bod yn cyrraedd safonau priodol cyrff cyhoeddus heb fiwrocratiaeth ddiangen.

Comisiwn y Gyfraith
Diwygio'r gyfraith

## Galluogi ein Pobl i Ddiwygio’r Gyfraith yn Arbenigol ac yn Annibynnol

Mae ein llwyddiant yn dibynnu ar ddenu, datblygu a chadw gweithlu medrus a llawn cymhelliant. Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein pobl ac yn creu amgylchedd sy’n cefnogi gwaith o ansawdd uchel drwy offer modern, prosesau cydweithredol a man gweithio sy’n galluogi timau i berfformio ar eu gorau.

### Amcanion

- Adeiladu a chynnal gweithlu cynaliadwy sydd â’r gallu sydd ei angen i ddiwygio’r gyfraith mewn modd o safon.
- Meithrin gallu i ddefnyddio deallusrwydd artiffisial ac offer digidol eraill i wella darpariaeth ar yr un pryd â diogelu ansawdd a chywirdeb.
- Sicrhau bod ein hamgylcheddau gweithio ffisegol a rhithwir yn cefnogi’r gwaith o gyflawni ein diben statudol.
- Meithrin gwydnwch yn ein pobl a’n systemau sefydliadol, gan sicrhau ein bod yn gallu addasu i amgylchiadau sy’n newid.

### Sut byddwn yn gwneud hyn

- Parhau i weithredu ein strategaeth recriwtio a chynllunio’r gweithlu i greu gweithlu amrywiol a chynaliadwy.
- Parhau i ddatblygu a defnyddio strategaeth deallusrwydd artiffisial a thechnoleg i gefnogi, yn hytrach na disodli, barn broffesiynol, gan ganolbwyntio ar enillion cynhyrchiant mewn tasgau risg isel, baich uchel ar yr un pryd â meithrin dealltwriaeth sefydliadol o gyfleoedd a chyfyngiadau’r offer hyn.
- Gwella gwydnwch sefydliadol drwy wreiddio dulliau gweithredu sy’n ystyriol o drawma, wedi’u hategu gan weithdai a hyfforddiant sy’n helpu staff i ddatblygu’r ymwybyddiaeth a’r sgiliau sydd eu hangen wrth weithio gyda phynciau sensitif a grwpiau rhanddeiliaid.
- Nodi swyddfa newydd ar gyfer y brif swyddfa ar ôl y bwriad i adael 102 Petty France.
- Gweithredu argymhellion yr adolygiad allanol o’n model gweithredu i sicrhau bod prosiectau’n cael yr adnoddau priodol.